O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 3249 (Cy. 324)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2012

Gwnaed *14 Rhagfyr 2012*

Yn dod i rym *21 Rhagfyr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd Castell-nedd i'r Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid dileu cyfyngiadau cyflymder ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd, mewn mannau lle y cyfyngir ar y gefnffordd ar hyn o bryd gan oleuadau stryd.

Mae Gweinidogion Cymru felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 82(2) ac adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ("Deddf 1984") ac wedi rhoi rhybudd i'r cyhoedd o'u bwriad i wneud hynny, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

Enwi a chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Rhagfyr 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan y Rhigos, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2012.

Dileu Cyfyngiadau

2. Cyfarwyddir bod y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd